CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **Nos Lun 14eg o Ragfyr 2020 am 6.30y.h.** trwy gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Thomas - Cadeirydd
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Terry Jones
Cyng. Jamie Jones
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. John Lee
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Non W. Parry.

HEFYD YN BRESENNOL : Cyng. Dylan W. Rees – Cynghorydd Sir.
Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol

20/038 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Christine Roberts.

20/039 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

20/040 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolwyr.
Cadeirydd yn adrodd fod dim materion yn ymwneud a'r Heddlu wedi eu hanfon i'r Swyddfa.

20/041 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 09.11.2020**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod.
Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

20/042 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 09.11.2020**
Cadeirydd yn datgan, os oedd unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, i arbed amser yn ystod y Cyfarfod drwy gyfrwng TEAMS.
Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn yn y Swyddfa o flaen y Cyfarfod.

20/043

1 **I DDERBYN PENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO – TACHWEDD 2020**
Cadeirydd yn adrodd fod Rhestr o'r Penderfyniadau uchod wedi eu hatodi i Becyn y Rhaglen Llawn a'r sylwadau wedi cael eu hanfon ymlaen i Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.

2 **Safle Parc y Coed - Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn**
E-bost 24.11.2020 - Hunain esboniadwy gan Swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau fod 3 taliad o dan Gytundeb 106 wedi eu derbyn gan Ddatblygwr yr Ystâd uchod. Mae'r taliad cyntaf angenrheidiol am y Rhan Cyntaf o'r datblygiad wedi ei dalu yn llawn. Dim trafodaeth. **Derbyn.**

20/044 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER

Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Sul y Cofio -** Llythyr o ddiolch wedi ei dderbyn gan Gymdeithas Cyn-ddisgyblion Ysgol Sir Llangefni yn cydnabod fod Maer y Dref wedi gosod Plethdorch ar y Gofeb o flaen yr Ysgol.

2 **Cyfweliad Môn FM 01.12.2020 -** Cyflwyno fod Goleuadau Nadolig y Dref yn cael eu rhoi ymlaen Nos Wener 4ydd o Ragfyr 2020. Oherwydd COVID-19 eleni, yn anffodus nid fydd unrhyw adloniant/gweithgareddau yn mynd ymlaen o gwmpas Neuadd y Dref, i arbed unrhyw ymgynnull yn ystod y cyfnod pryderus yma.
Maer y Dref wedi cyhoeddi yn ystod Cyfweliad FM, ei bod yn diolch i Dirmon y Cyngor Tref, sef Mr. Ben Manton a Mr. Berwyn Jones, am eu gwaith caled iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf i osod y goleuadau. Bu cofio hefyd am y Diweddar Mr. Alwyn Rowlands, a roddodd wasanaeth arbennig wrth arwain Noson Goleuadau Nadolig y Dref yn y gorffennol.

3 **Cystadleuaeth Arddangosfa Ffenestr Nadolig –** Maer y Dref, Dirprwy Faer a Nicola Gibson wedi beirniadu'r Gystadleuaeth uchod. Canlyniadau :

- 1af Siop Emberwood, Stryd yr Eglwys
- 2il Siop Gwallt HBA, Stryd Fawr
- 3ydd Siop Cain / Julie – "The Original Cefni Barber"

Cyng. Non Parry yn adrodd bydd Plac/Tlws yn cael eu cyflwyno i'r enillydd yn ystod y dyddiau nesaf. Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu casglu'r Placiau yn ôl yn ystod Ionawr 2021 a chyfnewid am Dystysgrif i'w gadw. Cadeirydd yn diolch i Cyng. Non Parry a Nicola Gibson am eu cefnogaeth a chymorth.

4 **Clwb Rotary – Noson "Tree of Lights" –** Cadeirydd yn falch o fod yn rhan o'r Achlysur byr eleni gyda'r elw yn mynd at Hosbis Dewi Sant yng Nghaergybi. Cyng. Thomas yn adrodd, ei bod, yn ystod y Noson, wedi hyrwyddo Siwmper Nadolig, sydd yn cael eu gwerthu yn lleol i gefnogi Hosbis Dewi Sant .

20/045 MATERION YN CODI GAN AELODAU

1 **Cyng. Margaret Thomas : Cynrychiolydd ar Ffwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Graig**
Cadeirydd yn adrodd ei bod yn ymddiswyddo o'r Swydd uchod ac yn gofyn a oes Aelod arall a diddordeb bod yn Llywodraethwyr Ysgol y Graig. Dim Trafodaeth.

2 **Cyng. Richard Parry : Tyrchod Daear, Maes Chwarae, Rhosmeirch**
Clerc yn adrodd fod dau dwrch daear wedi eu dal yn y Maes Chwarae uchod. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan fod mwy o dyrchod daear yn codi ochor arall i'r cae a hefyd fod y wal terfyn angen ei atgyweirio. Clerc yn adrodd mai'r bwriad ydyw i drafod ail-godi'r wal yn ystod Cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae.
Cyng. J. Egryn Lewis yn adrodd fod yn bwysig ail-gynnal Cyfarfodydd Is-bwyllgorau' r Cyngor Tref. **Derbyn.**

20/046 ADRODDIAD Y CLERC

Clerc yn adrodd ar y canlynol :

1 **Ystafell 109, Neuadd y Sir -** Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi cadarnhau fod Cwmni Chief Properties wedi derbyn y cynnig o £3,000.00 fel taliad terfynol i setlo'r bil a dod a'r mater i ben. Clerc yn datgan fod yr arian wedi ei drosglwyddo i Gwmni Chief Properties drwy'r Cyfreithwyr. **Derbyn.**

PARHAD 20/046

2 **BIPBC - Hen Safle'r Orsedd, Ger Siop Home Bargains -** Dim diweddariad i ymateb yn ôl, oherwydd, o dan amgylchiadau COVID-19, nid ydyw Rheolwr Ystadau, BIPBC, wedi rhoi blaenoriaeth i'r Trosglwyddiad o'r tir uchod i'r Cyngor Tref. Clerc am gysylltu eto yn y flwyddyn newydd.
Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw fod y llwybr cyhoeddus sydd ar derfyn y safle uchod wedi tyfu'n wyllt. Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am y llwybr. **Derbyn.**

3 **Safle Cae Criced -** Cadeirydd a Cyng. Richard Parry wedi cysylltu gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i geisio symud pethau ymlaen. Disgwyl cyngor gan Fargyfreithiwr o Lerpwl am Amcan bris i lunio Cytundeb ar gyfer trosglwyddo'r tir uchod i'r Cyngor Tref ac i'r Cyngor yma fod yn gyfrifol am gostau'r Bargyfreithiwr. Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi cadarnhau ei bod yn cyfathrebu gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr ynglŷn â hyn. **PENDERFYNWYD** cytuno i'r Cyngor Tref fod yn gyfrifol am gostau'r Bargyfreithiwr.

4 **Tir tu Cefn i'r Llys -** Perchennog wedi derbyn Cytundeb Drafft gan Gyfreithiwr y Cyngor Tref i'w gymeradwyo, ac os yn fodlon gyda'r telerau, bydd y pryniant yn cael ei gwblhau.

5 **Gardd Glöyn Byw, Maes Chwarae Nant y Pandy -** Clerc yn adrodd ei fod wedi ymweld â'r Safle gyda'r Ymgeisydd i gytuno ar leoliad yr Ardd Glöyn Byw o fewn y Maes Chwarae uchod. Clerc yn rhoi crynodeb o'r Cyfarfod ac yn cadarnhau mai hau blodau gwyllt, gosod "raised beds" a Trellace ydyw gofynion y Grŵp, a fydd y llecyn yn amharu dim ar y Maes Chwarae na pheiriannau'r Contractwyr yn ystod y cyfnod torri'r gwair.
PENDERFYNWYD cytuno yn unfrydol i'r Cais uchod a bydd y Swyddfa yn rhoi gwybod i Gydlynydd y Prosiect a Chynrychiolydd Grŵp Ffrindiau Nant y Pandy i symud ymlaen gyda'r Prosiect.
Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw at y drafodaeth yn ystod Cyfarfod Llawn ddiweddar i gael amcan bris am osod ffens yn ardal Maes Chwarae Nant y Pandy/Ystâd Pen Derwydd, i arbed plant rhag defnyddio llwybr answyddogol fel mynediad i'r Ystâd. Clerc yn ymateb ei fod wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â chael ffens fetel neu wifren yn yr ardal yma a bydd yn dod yn ôl gyda mwy o wybodaeth i'r Cyfarfod Llawn nesaf. Clerc yn adrodd ymhellach fod y llwybr sydd yn mynd heibio wal y Maes Chwarae wedi cael ei strimio yn ddiweddar, eithin wedi eu clirio ac yn amlwg fod rhywun wedi bod yn clirio'r safle ac yn ddadlennol llecyn mawr o dir. Cyng. John Lee yn holi pwy sydd yn gyfrifol am y tir yma, ansicr o hyn ond cytunwyd i gadw llygaid ar y sefyllfa. **Derbyn.**
Clerc yn cadarnhau fod Tirmon y Cyngor Tref yn dechrau gwaith strimio a.y.b. o gwmpas ymylon y Maes Chwarae yn y Flwyddyn Newydd i adennill mwy o'r tir.
Cyng. Margaret Thomas yn ychwanegu fod rhai o drigolion Ystâd Pen Derwydd wedi cadarnhau fod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gwella erbyn hyn.

20/047 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

1 **Un Llais Cymru - 12.11.2020 - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn -** Dim Cynrychiolaeth.

2 **Cyfarfod Cyngor Grŵp Llandrillo-Menai 03.12.2020 -** Cyng. Richard Parry yn ymddiheuro ei fod ddim wedi medru cwblhau ei bresenoldeb ond yn derbyn Adroddiadau.

20/048 CYLLID

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Tachwedd 2020 -** Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw at y canlynol :

- **09.11.2020 - CSYM Treth Lon Las £49.00** - Holi ynglŷn â rhyddhad treth. Clerc yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i'r Cyngor Sir am gyfraniad COVID-19 tuag at y Trethi ac wedi derbyn ymateb fod Cynghorau Tref ddim o fewn y meini prawf. Cyng. Lewis yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig - Clerc yn cytuno i ofyn am hyn.
- **27.11.2020 - Arian Parod £200.00 Glanhau Cysgodfannau Bysus -** Clerc yn cadarnhau'r taliad uchod gan esbonio fod Cysodfannau Bysus y Dref, o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref, wedi cael eu glanhau yn ddiweddar.

Clerc yn cadarnhau bydd Cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ac Is-bwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae yn cael eu cynnal yn fuan yn y Flwyddyn Newydd gyda materion newydd yn cael eu cynnwys ar y Rhaglen.
Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Tachwedd 2020.

2 **Precept 2020/2021 -** Dim Trafodaeth – i'w drafod yn Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn y Flwyddyn Newydd. **Derbyn**

3 **Llywodraeth Cymru : Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 –** Dim trafodaeth. Llythyr wedi ei atodi i Becyn y Rhaglen Llawn er gwybodaeth i'r Aelodau. **Derbyn.**

20/049 ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cynghorydd Sir, Dylan Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Moderneiddio Ysgolion - Adroddiad o flaen y Pwyllgor Scrutiny - ddim wedi gallu symud pethau ymlaen oherwydd pandemic COVID-19. Pwysau ar y Cyngor Sir rŵan i edrych ar hyn, gyda'r argymell i ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn. Ysgol Bodffordd ddim yn newid.
- Menter Môn/Cyngor Sir Ynys Môn, ynghyd a Grwpiau arall wedi eu sefydlu o flaen y Nadolig i ddarparu bwyd ac anrhegion i deuluoedd mewn angen yn y Dref.
- BREXIT - Aflonyddwch Dros Dro ym Mhorthladd Caergybi a lloriau mewn trafferthion gyda'r trosglwyddiad BREXIT. Llywodraeth yn edrych ar safle parcio i loriau ym Mona gyda Contraflow ar yr A55 mewn lle ar gyfer hyn;
- Prosiect Newydd - Bwyd Da Môn i bobl fregus ac mewn angen. Gofyn am wirfoddolwyr - mwy o fanylion ar gael ar safle We CAB Ynys Môn.

Cyng. Jamie Jones yn datgan ei fod yn cymryd rhan yn y Prosiect yma wrth wirfoddoli yn y Banc Bwyd a Cyng. Margaret Thomas hefyd wedi rhoi cyfraniad ariannol at yr achos yma.
Cadeirydd yn diolch i Cyng. Dylan Rees a Cyng. Jamie Jones am eu mewnbwn.

20/050 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 **Miller Research (UK) Ltd - Lon Gyswllt, Llangefni -** Holiadur wedi eu rhannu gyda'r Aelodau, unrhyw sylwadau i'w bwydo yn ôl i'r Swyddfa. Clerc yn adrodd bod Uwch Ymgynghorydd y Cwmni uchod yn awyddus cael Cyfweliad drwy gyfrwng TEAMs gyda Dirprwyo o'r Cyngor Tref. Cysylltwch gyda'r Clerc os ydych yn fodlon bod yn rhan o'r Cyfweliad er mwyn gwneud y trefniadau priodol.

2 **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadau ar Gyfer Ynys Môn -** Gohebiaeth wedi eu hanfon i'r Aelodau - Swyddfa i ddilyn i fynnu os bydd unrhyw ddatganiad yn dod i law - Dim trafodaeth bellach. **Derbyn**

PARHAD 20/050

3 **Energy Campaign "Paint the Town Orange" Citizens Advice Bureau Ynys Môn**
Gwybodaeth wedi ei anfon i'r Aelodau - Dim trafodaeth.

20/051 GOHEBIAETH :ER GWYBODAETH (Wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Tachwedd 2020)

1 **Un Llais Cymru** - Derbyn
2 **Materion Eraill** **-** Derbyn.

20/052 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER
Llys Sirol, Ffordd Glanhwfa, Llangefni - Cyng. Victor Hughes yn awyddus i edrych ar logi Ystafelloedd o fewn y Llys yn y Gwanwyn 2021 ac i ystyried cael Prisiad cyfoes a threfnu Cyfarfod o'r Aelodau, yn y Swyddfa, pan mae yn ddiogel i wneud hyn.
Clerc yn cadarnhau ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Grwpiau sydd â diddordeb yn Llogi ystafelloedd ac yn gobeithio edrych ar hyn ymhellach pan fydd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu hymlacio.
Cyng. Victor Hughes yn adrodd ymhellach i gysylltu gyda Gwerthwyr Tai i adnabod yr Ystafelloedd i'w llogi a'r hawliau ynghlwm gyda gosod i denantiaid. Cyng. Richard Parry yn cytuno gydag argymhellion Cyng. Hughes ac yn cynghori'r Clerc i wneud trefniadau gyda Cyfreithiwr y Cyngor Tref i baratoi "Draft Tenancy Agreement" o flaen llaw.
Cadeirydd yn arwain y Cyfarfod Llawn ar y syniad uchod ac yn cefnogi'r cynllun.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Chyfreithiwr y Cyngor Tref i wneud ymholiadau ar hawliau'r Cyngor Tref a.y.b. ac i edrych ar y gwaith papur priodol.
Gordyfiant o Ddrain - Allt Forwyllt ("Station", Llangefni) - Cyng. John Lee yn tynnu sylw at y drain yn tyfu drosodd yn yr ardal yma ac yn holi ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am dorri'r drain.
Clerc am wneud ymholiadau a Chadeirydd yn diolch i Cyng. Lee am ddod a'r mater yma i sylw.
Cyng. Non Parry yn datgan mai yn y gorffennol, Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn, oedd yn gyfrifol am dorri'r gordyfiant.

20/053 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - Nos Lun 11eg o Ionawr 2021 am 6.30y.h. trwy gyfrwng TEAMS.

Cadeirydd yn dymuno Nadolig Llawen i'r Aelodau a chadwch yn ddiogel

CYNG. MARGARET ANN THOMAS
CADEIRYDD